Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

**Heol Gelli Haf**
**Fleur De Lys**
**Coed Duon**
**NP12 3JQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1821 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 1607 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 214 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.2%) | 15.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 14.8%) | 9.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 11.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/05/2024 |
| Mae'r ysgol yn ysgol bartner ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gymuned gartrefol a gofalgar ble rhoddir pwyslais cryf ar gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Mae’r tîm lles yn gweithio’n ddiflino i ddarparu cefnogaeth a chynhaliaeth fugeiliol ragorol i ddisgyblion. Mae’r ‘Hwb’, yr ‘Hafan’, ‘Y Ganolfan’ a’r ystafelloedd lles ar y ddau safle yn cynnig lloches, gofal a chefnogaeth i ddatblygu hyder disgyblion a’u helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae’r rhaglen gynhwysfawr o ymyraethau a darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol werthfawr yn cefnogi cynnydd addysgol a lles y disgyblion yn dda. Cynigir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu eu barn a dylanwadu ar agweddau o fywyd ysgol trwy gyngor yr ysgol a’i is-bwyllgorau. Mae’r trefniadau i gadw disgyblion yn ddiogel yn gadarn. Nodwedd gref yw’r ffordd mae staff yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da trwy ymateb yn weithredol i unrhyw rwystrau sy’n effeithio ar bresenoldeb disgyblion. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb, gan gynnwys disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn uwch nag ysgolion tebyg ac mae’r gyfradd absenoldeb parhaus yn sylweddol is na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Ers ymweliad monitro Medi 2021, mae arweinwyr wedi parhau i gryfhau a gwella darpariaeth yr ysgol. Gweithia’r pennaeth a’i dîm yn ddiflino i sicrhau bod dysgu ac addysgu a lles wrth galon holl waith yr ysgol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn meithrin perthynas waith gynhaliol a chlòs â’u dosbarthiadau. Maent yn rheoli ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau ac esboniadau eu hathrawon. Dros amser, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth bynciol. Yn ogystal, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd cadarn yn eu medrau llafar ac mae eu medrau darllen ac ysgrifennu yn datblygu’n briodol. Mae gan fwyafrif fedrau rhif cadarn ac, yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau digidol.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau addas o beth y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn cynllunio gweithgareddau sy’n cynnig her briodol. Maent yn esbonio cysyniadau yn effeithiol ac yn holi’n gyson er mwyn profi gwybodaeth disgyblion. Mae’r athrawon hyn yn bwydo geirfa newydd i ddisgyblion ac yn cywiro’r defnydd o eirfa Saesneg yn sensitif. Fodd bynnag, mewn lleiafrif bychan o wersi, mae rhai diffygion yn yr addysgu sy’n golygu nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Mae'r rhain yn cynnwys athrawon yn siarad yn rhy hir, defnyddio cwestiynau caeedig yn unig ac achosion ble maent yn rhy barod i dderbyn atebion byrion gan ddisgyblion. Hyd yn oed pan mae’r addysgu yn gadarn, nid yw athrawon bob amser yn manteisio ar bob cyfle i ymestyn disgyblion i’r eithaf.

Mae diwylliant cryf o werthuso a hunanfeirniadaeth ymysg arweinwyr. Maent yn defnyddio calendr cynhwysfawr o weithgareddau hunanwerthuso yn effeithiol i gywain tystiolaeth am ansawdd yr addysgu a’r dysgu, y ddarpariaeth lles ac agweddau eraill, megis effaith dysgu proffesiynol. Nodwedd gref o waith arweinwyr yw’r ffordd maent yn gwerthuso ansawdd yr addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o’r prif gryfderau a’r meysydd i’w

gwella ac mae cynllun datblygu’r ysgol yn ffocysu’n ofalus ar brif flaenoriaethau’r ysgol, gan gynnwys yr agweddau o ddysgu ac addysgu sydd angen eu gwella ymhellach. Mae arweinwyr wedi llwyddo i greu diwylliant ble mae dysgu proffesiynol a derbyn adborth ar sut i wella ansawdd yr addysgu yn greiddiol i waith y staff. Mae’r corff llywodraethol yn angerddol dros sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yr ardal ond nid ydynt bob amser yn herio penderfyniadau arweinwyr yn ddigonol. Yn ddiweddar, mae’r pwyllgor cyllid wedi gweithio gyda’r pennaeth a’r swyddog busnes i fonitro cyllideb yr ysgol yn fanylach. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth wneud arbedion ac mae diffyg sylweddol yn y gyllideb.

Oherwydd amseriad yr arolygiad, nid oeddem yn gallu arsylwi gwersi na gwerthuso gwaith disgyblion y chweched dosbarth.

## Argymhellion

A1 Mynd i’r afael â’r diffyg yn y gyllideb

A2 Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol

A3 Sicrhau bod athrawon bob amser yn cynllunio’r addysgu, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer y medrau, i herio disgyblion i’r eithaf er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â hunanwerthuso ar sail arfarnu effaith addysgu ar ddysgu a lles disgyblion a’r modd mae’r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb a chynhwysiant, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth bynciol. Gall y disgyblion hyn adalw eu gwybodaeth flaenorol yn hyderus ac mae mwyafrif ohonynt yn ei chymhwyso’n addas mewn cyd-destunau newydd. Mewn ychydig o achosion, ble mae’r addysgu yn hynod effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth i gyd-destunau cymhleth yn llwyddiannus ac, mewn rhai achosion, yn holi cwestiynau treiddgar ac aeddfed i’w hathro i ddyfnhau eu

dealltwriaeth. Fodd bynnag, mewn lleiafrif bychan o achosion, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent, yn bennaf oherwydd diffygion yng ngwaith cynllunio'r athrawon.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau ac esboniadau eu hathrawon. Yn ogystal, maent yn gwrando'n barchus ar gyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn barod eu cyfraniad ar lafar ac mae ganddynt afael addas ar eirfa a therminoleg bynciol pan maent yn siarad. Yn aml, mae'r disgyblion hyn yn strwythuro eu hymatebion yn drefnus gan ddefnyddio patrymau brawddegau yn ddeallus. O gael eu holi'n ddyfnach, gall mwyafrif y disgyblion gynnig atebion estynedig perthnasol i gwestiynau eu hathrawon a medrant drafod yn adeiladol gydag eraill wrth wneud gwaith pâr. Maent yn aml yn cymharu eu syniadau yn aeddfed ac, o dro i'w gilydd, yn holi cwestiynau i'w cyfoedion er mwyn ysgogi eu dealltwriaeth eu hunain. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyfrannu ymatebion estynedig soffistigedig i drafodaethau dosbarth gan ddefnyddio ystod eang o eirfa yn y Gymraeg a Saesneg. Er enghraifft, maent yn trafod themâu'r nofel 'Llyfr Glas Nebo' yn aeddfed yn eu gwersi Cymraeg. Mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn troi at ei gilydd a thrafod yn Saesneg ble mae disgwyl iddynt drafod yn y Gymraeg neu maent yn cynnwys nifer o eiriau Saesneg yn eu hymatebion llafar. O gael eu hatgoffa am bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg, mae'r disgyblion hyn yn ymateb yn gadarnhaol ac yn llwyddo i fynegi eu hunain yn briodol yn yr iaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen gwerthfawr wrth gasglu gwybodaeth a lleoli ffeithiau mewn testunau. Gall y mwyafrif grynhoi gwybodaeth o destunau amrywiol a'i dadansoddi yn addas. Mae mwyafrif y disgyblion yn adnabod nodweddion arddull mewn testunau yn hyderus ac yn canfod negeseuon sydd ymhlyg mewn testunau a deunyddiau digidol yn fedrus. Mae'r disgyblion hyn yn dangos dealltwriaeth briodol o bwysigrwydd ystyried awdur a phwrpas ffynonellau wrth drafod eu dibynadwyedd. Mae gan ychydig o ddisgyblion uwch fedrau darllen soffistigedig. Medrant drafod themâu aeddfed, adnabod nodweddion arddull mwy cymhleth a thrafod eu heffaith ar y darllenydd yn gelfydd. Er enghraifft, maent yn ystyried yn ddeheuig sut mae nofel George Orwell 'Animal Farm' yn adlewyrchu digwyddiadau cyfnod y chwyldro yn Rwsia yn eu gwersi Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau addas wrth ysgrifennu at wahanol ddibenion. Maent yn strwythuro brawddegau a pharagraffau'n briodol yn y Gymraeg a Saesneg ac yn defnyddio geirfa bynciol yn gywir a phwrpasol. Mae mwyafrif y disgyblion yn ystyried pwrpas a chynulleidfa yn ofalus wrth ysgrifennu'n estynedig. Mae ychydig yn gwneud hyn mewn modd soffistigedig gan ddefnyddio ansoddeiriau a chymariaethau cyfoethog. Defnyddiant gystrawen gywir yn gelfydd i greu effaith ar y darllenydd. Er enghraifft, wrth greu araith berswadiol ar bwysigrwydd bod yn ddwyieithog yn eu gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, mae cystrawen letchwith, camgymeriadau sillafu esgeulus yn y Gymraeg a Saesneg, a geiriau Saesneg, yn britho gwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhif cadarn yn llwyddiannus yn eu gwersi mathemateg ac mewn pynciau perthnasol eraill. Mae'r disgyblion hyn yn cyfrifo'n rhugl gan ddefnyddio rhifau cyfan, degolion, ffracsiynau a chanrannau yn hyderus. Er enghraifft, maent yn cyfrifo biliau domestig, buddsoddiadau a'r fargen orau o dan gynigion gwahanol. Mae gan y mwyafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o siâp a gofod a medrau mesur. Er enghraifft, yn eu gwersi medrau pren, mae

disgyblion yn mesur yn gywir, gan ddeall goblygiadau goddefiant. Mae llawer o'r disgyblion yn llunio a phlotio graffiau gwasgar yn llwyddiannus a phan gânt y cyfle, gall y mwyafrif ddehongli'r data hyn yn hyderus. Maent yn cyfrifo mesurau o gyfartaleddau a dehongli gwybodaeth sydd wedi ei chyflwyno ar ffurf rhestrau, tablau a graffiau i ddod i gasgliadau synhwyrol. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhifedd datblygedig. Maent yn egluro'u rhesymeg yn glir wrth ddatrys problemau ac yn defnyddio'u dealltwriaeth o gysyniadau rhifiadol i ddatrys problemau cymhleth. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cyfrifo arwynebeddau siapiau cyfansawdd sy'n cynnwys darnau o gylch neu'n cymhwyso eu medrau rhifedd i ddatrys problemau algebraidd. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif gwan, gan gynnwys eu dealltwriaeth o'r pedair rheol, canrannau, ffracsiynau a chymarebau. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn cael trafferth datrys problemau rhifiadol sydd wedi eu gosod mewn cyd-destun.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau digidol, gan ddefnyddio eu medrau yn briodol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn eu gwersi technoleg digidol, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau mwy cymhleth, gan gynnwys sut i godio yn effeithiol.

Ar y cyfan, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau corfforol priodol. Mae gan leiafrif fedrau corfforol o safon uchel. Er enghraifft, dangosant ystwythder corfforol wrth ymarfer a gwella eu medrau rhedeg dros y clwydi. Yn aml, dangosa'r disgyblion ddyfalbarhad a gwytnwch wrth ddatblygu'r medrau hyn. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn addas. Er enghraifft, yn eu gwersi gwyddoniaeth, maent yn rhagfynegi beth fyddai'r nifer delfrydol o lafnau ar gyfer tyrbin gwynt. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn gadarn, er enghraifft wrth lunio ymson anifail mewn sŵ yn eu gwersi Cymraeg.

Mae'r ysgol yn darparu uned arbenigol i ddisgyblion ag anawsterau dysgu ychwanegol ar ran yr awdurdod addysg lleol. Yn gyffredinol, mae medrau cyfathrebu a chymdeithasol y disgyblion sy'n mynychu 'Y Ganolfan' yn datblygu'n gadarn, gyda lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni falchder amlwg at eu hysgol a'i chymuned. Mae bron pob un o'r disgyblion yn coleddu egwyddor graidd yr ysgol mai 'Perthynas yw popeth' ac maent yn ofalgar ac yn ystyriol o deimladau eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion 'Y Ganolfan', yn gwybod yn glir pwy sydd yno i'w helpu ac maent yn gwerthfawrogi cefnogaeth gadarnhaol a chynhaliol y staff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae eu hymddygiad yn waraidd mewn gwersi, ar goridorau ac yn ardaloedd prysur yr ysgol yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n tarfu ar yr awyrgylch arbennig hon ac nid ydynt yn fawr eu dylanwad ar eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn rhydd rhag bwlio a bod staff yn delio ag unrhyw achos yn briodol. Creda llawer o ddisgyblion fod staff yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu trin yn deg a chyfartal.

Mae aeddfedrwydd amlwg yn sgyrsiau llawer o'r disgyblion ac mae eu hymarweddiad yn arbennig. Mae disgyblion yn barod iawn eu sgwrs ac maent yn cyfarch a thrafod yn hyfryd gydag ymwelwyr. Drwy ymroi i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg neu gynnig profiadau amrywiol eraill, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol. Mae hyn yn eu grymuso ymhellach i fod yn unigolion moesegol a gwybodus sy'n ymfalchïo yn eu hunaniaeth Gymreig a Chymraeg.

Mae'r cyngor ysgol yn gynhwysol ac yn gweithredu'n ddemocrataidd. Mae'r cynrychiolwyr yn deall eu rôl i fod yn llais i'r holl ddisgyblion. Maent yn gweithio'n flaengar fel un corff effeithiol i gynrychioli safleoedd Gellihaf a'r Gwyndy. Adroddir yn gyson am weithredu'r cyngor i weddill yr ysgol. Mae'r cyngor llawn a'r is-bwyllgorau grymus yn sicrhau trafodaethau adeiladol gyda staff er mwyn cyfrannu at weledigaeth a bywyd beunyddiol yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd allgyrsiol a chwricwlaidd dengar i ddatblygu eu medrau corfforol a'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol. Maent yn ymhyfrydu yn eu llwyddiannau ac yn falch o'r cyfleoedd i ddathlu'r rhain gyda holl gymuned yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau doeth o ran eu hiechyd a'u lles eu hunain ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd i drafod testunau pwysig a chyfoes megis iechyd meddwl a bwyta'n iach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon, yn barod i weithio ac yn arddangos meddylfryd cadarnhaol. Maent yn ymateb yn gwrtais a pharchus, ac yn gwrando'n ystyrlon ar gyfraniad eu cyfoedion a'u hathrawon. Mae llawer yn ddisgyblion uchelgeisiol, medrus a hyderus sy'n ateb cwestiynau a rhyngweithio'n effeithiol mewn parau. Dangosant ddycnwch a dyfalbarhad yn eu gwersi. Mae ychydig o ddisgyblion yn chwilfrydig a brwdfrydig iawn wrth ymateb i gwestiynau'r athro ac wrth ymroi i weithgareddau'r wers. Mae'r mwyafrif yn dangos balchder tuag at eu gwaith gan sicrhau bod ei ddiwyg yn dda.

Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2022-2023, gostyngodd cyfradd presenoldeb yr ysgol yn llai na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd presenoldeb yn uwch nag ysgolion tebyg. Mae'r gyfradd absenoldeb parhaus yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae data'r ysgol sydd heb ei ddilysu, yn dangos bod cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n fwy na'r hyn a welwyd yn genedlaethol eleni. Mae llawer o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd presenoldeb da a'i fod yn gysylltiedig â'u cynnydd.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Nodwedd gref o addysgu yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw'r adnabyddiaeth dda sydd gan staff o'u disgyblion, a'r gofal amlwg amdanynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn meithrin perthynas waith glòs a chynhaliol â'u dosbarthiadau. Mae ganddynt arferion effeithiol sy'n sicrhau bod disgyblion yn dod i mewn i'r gwersi yn drefnus, yn setlo i waith yn gyflym ac yn trosglwyddo'n llyfn rhwng un gweithgaredd a'r nesaf. Maent yn rheoli ymddygiad ac ymgysylltiad y disgyblion yn effeithiol, gan ganmol eu hymdrech mewn dull cefnogol er mwyn eu hannog i ddyfalbarhau. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn fodelau iaith da. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac mae llawer yn symud o gwmpas y dosbarth gan

fonitro ymgysylltiad a chynnydd y disgyblion yn gyson. Mae'r athrawon hyn yn cynnig cymorth defnyddiol i unigolion neu grwpiau, yn ôl yr angen.

Mewn llawer o wersi, mae cydbwysedd da rhwng yr amser lle mae'r athro'n cyfarwyddo'r dysgu a'r amser i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn esbonio cysyniadau yn effeithiol ac yn holi'n gyson er mwyn profi gwybodaeth disgyblion, a sicrhau eu bod yn deall eu hesboniadau. Maent yn cyflwyno terminoleg bynciol newydd i ddisgyblion ac yn cywiro'r defnydd o eirfa Saesneg a'r achosion lle mae disgyblion yn troi i siarad Saesneg mewn modd sensitif. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau addas o beth y gall disgyblion ei gyflawni ac maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n cynnig her briodol iddynt. Maent yn ystyried yn ofalus yr hyn maent am i ddisgyblion ei ddysgu wrth gynllunio gweithgareddau ac mae'r tasgau'n adeiladu'n bwrpasol ar ei gilydd. Maent yn defnyddio amrywiaeth o dasgau byr wedi eu strwythuro'n addas er mwyn paratoi ar gyfer tasgau estynedig, gan sicrhau bod tempo'r wers yn cyd-fynd â chyflymder dysgu'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn gwneud defnydd cynhyrchiol o adnoddau amrywiol er mwyn adeiladu hyder disgyblion a gwirio eu dealltwriaeth wrth iddynt weithio'n annibynnol. Mae tua hanner yr athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau asesu a holi buddiol er mwyn profi dealltwriaeth a sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn estynedig.

Mewn ychydig o achosion, mae ansawdd yr addysgu yn uchel iawn. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn defnyddio'u gwybodaeth bynciol yn fedrus i ragweld beth fydd disgyblion yn ei weld yn anodd. Ar sail hyn, maent yn cynllunio'u gweithgareddau yn gelfydd, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu hymestyn i'r eithaf, a'u herio i feddwl yn ddwfn trwy gydol y wers. Mae'r athrawon yn yr achosion hyn yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau i gyd-destunau cymhleth a newydd yn annibynnol. Maent yn holi disgyblion yn dreiddgar er mwyn herio'r ffordd maent yn meddwl ac i ddyfnhau eu dealltwriaeth. Addasant eu cwestiynau yn fedrus ar gyfer disgyblion o alluoedd gwahanol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a buan yn y gwersi hyn.

Mewn lleiafrif bychan o wersi, mae diffygion yn yr addysgu sy'n golygu nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd. Mae'r diffygion hyn yn cynnwys athrawon yn siarad yn rhy hir, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol, gweithgareddau sydd ddim yn cynnig digon o her, neu athrawon ddim yn adnabod camsyniadau disgyblion yn ddigon amserol. Yn aml yn yr achosion hyn, mae natur holi'r athro yn golygu mai dim ond atebion byr a chyfyngedig a gânt gan y disgyblion. Hyd yn oed pan mae'r addysgu'n gadarn, nid yw athrawon bob tro'n ymestyn disgyblion i'r eithaf er eu bod yn barod i wynebu her uwch.

Wrth asesu cynnydd disgyblion, at ei gilydd, mae athrawon yn adnabod y prif gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yng ngwaith disgyblion, gan gynnwys eu camgymeriadau ieithyddol. Mae athrawon yn aml yn nodi sylwadau cadarnhaol am ymdrech disgyblion. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn cynnig adborth llafar neu ysgrifenedig buddiol sy'n rhoi cyngor penodol i ddisgyblion ar sut i wella'u gwaith. Fodd bynnag, mae amrywiaeth yn ansawdd yr adborth i ddisgyblion, ac nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i'w cyngor.

Mae gan yr ysgol systemau grymus er mwyn olrhain cynnydd y disgyblion dros amser, ac mae'r rhain yn rhoi gorolwg defnyddiol i arweinwyr o gyflawniad disgyblion,

gan gynnwys disgyblion sydd ag ADY. Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn bwrpasol er mwyn adnabod yn amserol unrhyw ddisgyblion sy’n tangyflawni ac mae ganddynt raglenni pwrpasol ar gyfer cefnogi’r disgyblion hyn.

Mae ‘Cwricwlwm i Rymni’ ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 yn cynnig nifer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth a’u gwybodaeth ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae’n alinio’n glir â gweledigaeth yr ysgol i feithrin disgyblion galluog ac uchelgeisiol. Mae’r trefniadau pontio cwricwlaidd o’r cynradd i’r uwchradd yn gadarn o ganlyniad i gydweithio effeithiol ag ysgolion cynradd y clwstwr.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm cytbwys sy’n diwallu anghenion bron bob disgybl. Mae’r ysgol yn cynnig cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion yr ysgol hŷn a’r chweched dosbarth i wneud dewisiadau am eu cyrsiau a’u dyfodol, ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i anghenion a dyheadau’r disgyblion hynny. Cynigir ystod eang o ddewisiadau, gan gynnwys amrywiaeth o gyrsiau academaidd, yn ogystal ag arlwy da o gyrsiau galwedigaethol megis adwerthu, chwaraeon ac egwyddorion hyfforddi, medrau pren a pheirianneg. Addysgir y rhain yn yr ysgol er mwyn caniatáu i ddisgyblion ddilyn llwybr dysgu perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ehangu profiadau disgyblion mwy abl a thalentog, er enghraifft drwy’r ‘Rhaglen Catalyst Cymru’ a chydweithio â phrifysgol ryngwladol. Mae’r disgyblion mwyaf bregus yn cael mynediad at brofiadau dysgu buddiol i gefnogi eu datblygiad personol. Mae’r gwaith i ddatblygu cwricwlwm amgen bwriadus ar gyfer y disgyblion hyn yn ‘Y Ganolfan’ yn ei ddyddiau cynnar.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth o hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl LHDTC+. Caiff hyn ei gynllunio a’i yrru gyda chymorth pwyllgor dinasyddiaeth y disgyblion a’i gyflwyno mewn gwasanaethau, cyfnodau cofrestru, gwersi iechyd a lles, yn ogystal â mewn rhai gwersi fel y dyniaethau.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy’n cyfoethogi profiadau disgyblion, megis gweithgareddau o fewn y meysydd iechyd a lles a chelfyddydau. Gwneir ymdrech gynyddol i gynnig profiadau i ddisgyblion yr ysgol iau i ddatblygu eu medrau emosiynol a chymdeithasol, ac i ddysgu am amrywiaeth. Gwneir hyn yn bennaf drwy’r rhaglen iechyd a lles werthfawr sy’n cynnwys gwersi lles, diwrnodau dathlu gwahaniaethau, gwasanaethau, gweithgareddau lles a gwersi i sicrhau dealltwriaeth o addysg rhyw a pherthnasoedd. Mae’r ysgol hefyd yn helpu disgyblion i wneud penderfyniadau a dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw, gan gynnwys sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae gan uwch arweinwyr strategaeth hirdymor synhwyrol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Maent wedi sefydlu tîm o gydlynwyr er mwyn arwain y strategaeth a llywio cydweithio gwerthfawr â’r ysgolion cynradd partner i gysoni’r ddarpariaeth ar gyfer medrau a dealltwriaeth bynciol disgyblion. Mae’r cydlynwyr yn cydweithio’n fuddiol ag arweinwyr y pynciau er mwyn adnabod a chyfoethogi’r cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau ar draws y cwricwlwm. Yn dilyn sesiynau dysgu proffesiynol gwerthfawr, rhoddir ffocws penodol ar wella llafaredd ac uwch fedrau darllen disgyblion. Mae’r strategaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y medrau hyn mewn llawer o bynciau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cynlluniau ar gyfer hyrwyddo Cymreictod a hybu defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn gadarn. Mae disgyblion yn cael amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am eu treftadaeth a diwylliant Cymru drwy'r rhaglenni iechyd a lles, profiadau allgyrsiol a'r cwricwlwm yn ehangach. Atgyfnerthir y gwaith gan yr ethos a'r awyrgylch Gymreig o gwmpas yr ysgol ac anogaeth bositif a chyson gan staff i ddisgyblion 'droi i'r Gymraeg'.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn gymuned gynhwysol, ofalgar a chartrefol sy'n cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn rhagorol. Mae'r egwyddor graidd, sef 'Perthynas yw popeth', yn cael ei hybu, ei hyrwyddo a'i chyfoethogi gan berthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion. Mae staff yr ysgol gyfan yn cyfrannu'n frwd at ddatblygu disgyblion huawdl a chwrtais sy'n cynrychioli'r ysgol gyda balchder. Atgyfnerthir y naws gymunedol yn ehangach trwy'r cyfathrebu cyson a'r ymgynghori amserol â rhieni a gofalwyr.

Mae gan yr ysgol ethos cryf o hyrwyddo parch ac ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys system briodol i ddelio ag unrhyw ymddygiad annerbyniol, gan osod camau synhwyrol sy'n ddealladwy i'r disgyblion a staff, fel ei gilydd. Gweithia'r staff yn ddiwyd i sicrhau bod y disgyblion yn barod i ddysgu yn y gwersi ac maent yn annog eu llwyddiant. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar agweddau disgyblion ac mae wedi lleihau nifer y gwaharddiadau dros amser.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn wrth weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae gan y tîm ADY weledigaeth gref ac maent yn ymroi'n frwdfrydig er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cefnogi anghenion penodol dysgu, corfforol, ac emosiynol disgyblion. Mae trefniadau ystyrlon a graddedig ar gyfer ymateb i anghenion disgyblion sy'n cynnwys 'panel cynhwysiant' lle mae staff allweddol yn trafod a chynllunio cymorth. Cyflwynir rhaglen gynhwysfawr o ymyraethau gan dîm estynedig o staff er mwyn ymdrin ag anghenion penodol disgyblion.

Mae awyrgylch gefnogol yn yr 'Hwb', yr 'Hafan', 'Y Ganolfan' a'r ystafelloedd lles ar y ddau safle yn sicrhau bod y disgyblion priodol yn manteisio'n effeithiol ar y gefnogaeth sydd ar gael. Mae'r canolfannau hyn yn cynnig man diogel i ddisgyblion lle mae'r lloches, gofal a chefnogaeth a geir yno yn hybu hyder ac agweddau cadarnhaol tuag at waith. Mae'r 'Hafan' yn adnodd defnyddiol sy'n bodloni anghenion disgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac ymddygiad heriol. Yma, caiff y cwricwlwm ei deilwra'n benodol a phersonol er mwyn hwyluso cyflawniad disgyblion a'u cefnogi i ddychwelyd i'r brif ffrwd, maes o law. Yn 'Y Ganolfan', mae disgyblion o bob oedran yn cael cyfleoedd gwerthfawr i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu eu medrau bywyd yn llwyddiannus o fewn amgylchedd diogel ac ysgogol.

Mae trefniadau trosglwyddo gwybodaeth ar gyfnodau pwysig ym mywyd ysgol y plentyn, ynghyd â gweithgareddau pontio bugeiliol, yn gryfderau amlwg. Yn ogystal, mae gan y tîm ADY weithdrefnau effeithiol iawn i ddod i adnabod anghenion y disgyblion a sefydlu perthynas â theuluoedd yn gynnar.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Gwneir hyn trwy wasanaethau, myfyrdodau a thrwy'r rhaglen addysg bersonol a

chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth wedi ei theilwra yn ôl yr angen at anghenion lles disgyblion. Mae arweinwyr perthnasol yn cydweithio â phartneriaid allanol yn bwrpasol i sicrhau cefnogaeth bersonol sy'n canolbwyntio ar anghenion disgyblion unigol.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu eu barn a dylanwadu ar agweddau o fywyd ysgol. Mae'r broses o ymgyrchu, pleidleisio ac ethol cynrychiolwyr yn ddemocrataidd yn codi proffil cyngor yr ysgol sy'n ei gwneud hi'n fraint i'r disgyblion gynrychioli'r flwyddyn. Cyfoethogir gwaith y cyngor ysgol drwy'r is-bwyllgorau er mwyn sicrhau bod cyfle i amrywiaeth ehangach o ddisgyblion leisio'u barn. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau arwain buddiol. Un enghraifft nodedig yw'r 'Mentoriaid Mislif' sydd wedi gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o'r mislif ymysg cymuned yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb yn effeithiol drwy gylchlythyron a strategaethau megis y 'marathon presenoldeb'. Mae'r systemau olrhain cadarn yn caniatáu i arweinwyr adnabod grwpiau o ddisgyblion gyda phresenoldeb isel yn gynnar ac, o ganlyniad, mae'r ysgol yn ymateb yn weithredol i'r absenoldebau hyn. Mae'r ysgol yn gweithio'n rhagweithiol gyda'r disgyblion a'u teuluoedd, ynghyd ag asiantaethau allanol, lle bo'n briodol, i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion trwy ddarpariaeth dysgu ar-lein a chynnal ymweliadau ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Arweinia hyn at gynyddu oriau cyswllt unigolion â'r ysgol ac, mewn rhai achosion, ddychwelyd yn llwyddiannus i'r prif lif.

Mae diwylliant cadarn o ddiogelu ar draws holl gymuned yr ysgol. Mae'r tîm diogelu yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau manwl yn cael eu gweithredu'n briodol gan y staff. At ei gilydd, mae staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau o ran diogelu yn dda ac yn cael hyfforddiant addas yn rheolaidd. Mae staff yn elwa o dderbyn diweddariadau a chyfeiriadau at wybodaeth ychwanegol am ddiogelu drwy'r bwletin staff wythnosol. Cofnodir unrhyw faterion o ddiogelu, amddiffyn plant neu fwlio yn amserol ac yn bwrpasol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol gydag egni a brwdfrydedd. Mae'n uchelgeisiol ac yn angerddol dros sicrhau'r profiadau gorau ar gyfer y disgyblion a dyfodol yr ysgol. Mae gweddill y tîm arwain yn ei gefnogi'n gadarn. Mae arweinwyr wedi ymgynghori'n eang â rhieni, llywodraethwyr, y staff a'r disgyblion er mwyn creu gweledigaeth gytûn yn seiliedig ar berthnasoedd cadarnhaol a disgwyliadau uchel o bawb. Mae'r uwch dîm arwain yn hunanfeirniadol ac yn arfarnu llwyddiant yr ysgol wrth wireddu'r weledigaeth hon yn fwriadus.

Mae'r uwch dîm arwain yn cydweithio'n effeithiol. Yn ddiweddar, mae cyfrifoldebau'r uwch arweinwyr wedi eu mireinio fel eu bod yn gweithio'n fwy strategol ar draws y ddau safle. Fodd bynnag, mae peth gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau ychydig o arweinwyr ac mae rhai o'r cyfrifoldebau yn weinyddol.

Mae arweinwyr wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig wrth gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar a darllen. Yn ogystal, rhoddir pwyslais cryf ar ddefnyddio a sicrhau agweddau cadarnhaol at y

Gymraeg. O ganlyniad, mae disgyblion yn falch o'u Cymreictod a'u hardal. Er mwyn datblygu 'Cwricwlwm i Rymni', mae arweinwyr 'y disgyblaethau' yn cydweithio'n effeithiol o fewn ac ar draws y meysydd dysgu a phrofiad ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael profiadau dysgu diddorol drwy'r 'prosiectau mawr'. Cryfder nodedig o waith yr ysgol yw'r pwyslais ar feithrin perthnasoedd cadarnhaol a'r ddarpariaeth lles. Mae arweinwyr yn hybu diwylliant o ddiogelu yn gadarn. O ganlyniad, llwyddodd yr ysgol i wella ei chyfraddau presenoldeb a lleihau gwaharddiadau dros amser.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â disgyblion a theuluoedd er mwyn lliniaru effeithiau tlodi ac yn cynnig cymorth amserol, yn ôl yr angen, gan gynnwys darparu adnoddau hylendid, gwisg ysgol a gwisg prom. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith gwariant y grant datblygu disgyblion yn drwyadl er mwyn sicrhau bod y strategaethau yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion o deuluoedd incwm isel.

Mae'r rhan fwyaf o'r arweinwyr canol yn deall eu rolau yn dda. Mae'r arweinwyr hyn yn dadansoddi data ac amryw ffynonellau tystiolaeth yn ofalus er mwyn cynllunio i wella cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion. Ar y cyfan, mae'r cyfarfodydd disgyblaethau yn ffocysu'n fuddiol ar faterion addysgol heb fod yno ffocws gormodol ar faterion gweithdrefnol yn unig.

Caiff yr arweinwyr canol eu cefnogi'n dda gan aelodau'r uwch dîm arwain. Ar y cyfan, mae'r cyfarfodydd rheolaidd rhwng rheolwyr cyswllt ac arweinwyr canol wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth dros amser. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn glir ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw amcanion rheoli perfformiad y staff addysgu yn ddigon penodol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn angerddol dros sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yr ardal. Maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn glir. Maent yn gefnogol o'r ysgol ond nid ydynt bob amser yn herio penderfyniadau arweinwyr yn ddigonol.

Yn ogystal â blaenoriaethu lles disgyblion, mae'r uwch dîm arwain yn ystyried lles staff, hefyd. Mae'r sgyrsiau rheolaidd ac agored rhwng aelodau'r tîm arwain a'r staff a'r bore coffi staff bob bore Gwener yn golygu bod arweinwyr wedi llwyddo i greu awyrgylch gyfeillgar a braf yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n gynhyrchiol â'r rhieni a'r gymuned. Ceir bwletin rheolaidd a chynhwysfawr i rannu gwybodaeth am waith a rhediad yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth a'r swyddog busnes yn monitro cyllideb yr ysgol yn agosach. Mae pwyllgor cyllid y llywodraethwyr yn cyfrannu at y broses hon. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi bod yn ddigon llwyddiannus wrth wneud arbedion ac mae diffyg sylweddol yn y gyllideb.

Mae gan yr ysgol galendr cynhwysfawr o weithgareddau er mwyn cywain tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau dysgu, arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae arweinwyr yn holi barnau rhieni a disgyblion yn rheolaidd drwy holiaduron a grwpiau ffocws. Nodwedd gref o waith arweinwyr yw'r ffordd maent yn gwerthuso ansawdd addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu. Mae arweinwyr ar bob lefel yn dadansoddi data perfformiad a data mewnol yn fanwl a chywir. Mae arweinwyr disgyblaethau yn defnyddio'r dystiolaeth o

ddata lefel eitem er mwyn addasu eu cynlluniau a mireinio'r addysgu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb yn fuddiol. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith gwaith y timoedd bugeiliol ar les disgyblion yn agos. O ganlyniad i'r gwerthuso manwl a thrylwyr hwn, mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr ymwybyddiaeth glir o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella.

Mae'r cynllun datblygu yn ffocysu'n briodol ar brif flaenoriaethau'r ysgol. Mae'n cynnwys meini prawf llwyddiant addas, yn dynodi cyfrifoldebau, yn cynnwys cerrig milltir er mwyn cadw llygaid ar gynnydd, ac yn dynodi cyllid er mwyn cyflawni'r gweithgareddau arfaethedig. Er bod y rhan fwyaf o'r gweithredoedd ynddo yn ddilys, nid yw ychydig o strategaethau'r ysgol yn ddigon cynhwysfawr i wella agweddau penodol, er enghraifft cyflawniad y disgyblion mwyaf abl a thalentog.

Mae dysgu proffesiynol yn gryfder, ac mae'r ysgol wedi llwyddo i greu diwylliant lle mae staff yn awyddus i gael hyfforddiant ac adborth ar sut i wella ansawdd eu gwaith. Mae staff yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd ar gael ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda i ddatblygu yn eu rolau. Mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau o brosesau hunanwerthuso'r ysgol er mwyn cynllunio rhaglen sy'n ymateb i flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hon wedi ei theilwra'n agos i anghenion datblygu aelodau unigol o staff, gan gynnwys staff sy'n addysgu tu hwnt i'w harbenigedd. Mae'r rhaglen yn cynnwys hyfforddiant buddiol i ddatblygu medrau arwain ac addysgu staff. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth gref i fyfyrwyr rhaglenni addysg gychwynnol athrawon, athrawon newydd gymhwyso ac athrawon eraill sy'n gynnar yn eu gyrfa. Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol â'i hysgolion cynradd partner ac ysgolion uwchradd eraill er mwyn darparu cyfleoedd buddiol i staff rannu arfer da. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y rhaglen dysgu proffesiynol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.gov.wales/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 16/07/2024